



## CAIS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM

Dylid cwblhau'r ffurflen hon gan y Rhiant/Gwarcheidwad Cyfreithiol sy'n hawlio Prydau am Ddim ar gyfer ei blentyn/plant, ac sy'n derbyn un o'r budd-daliadau canlynol

	<b>YDW / NAC YDW</b>
<b>Ategiad Incwm</b>	
<b>Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Incwm</b>	
<b>Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth</b>	
<b>Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth sy'n Seiliedig ar Incwm (IR)</b>	
<b>Credyd Treth Plant ond nid Credyd Treth Gwaith a bod gennych incwm blynyddol, fel y'i hasesir gan Gyllid a Thollau EM, sydd ddim yn fwy na £16,190</b>	
<b>NODER: Os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith, nid ydych yn gymwys.</b>	
<b>Cymorth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999</b>	

Os ydych, cyflwynwch brawf dogfenol (fel y nodir drosodd) a chwblhewch y ffurflen hon.

Enw'r ymgeisydd: \_\_\_\_\_ Perthynas i'r plentyn/plant: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad llawn: \_\_\_\_\_ Côt Post: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

Rhif ffôn: \_\_\_\_\_ Rhif Ysw. Gwladol: 

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Dyddiad geni'r Ymgeisydd \_\_\_\_\_

Nodwch fanylion llawn bob plentyn sy'n ddibynnol arnoch ac sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir uchod

Enw(au) Llawn	Dyddiad Geni	Enw'r Ysgol	A yw pob plentyn yn byw gyda chi? <b>YDY/ NAC YDY</b>

## Prawf Teilyngdod:

Derbynnir unrhyw un o'r tystiolaethau dogfennol canlynol fel prawf eich bod yn derbyn y budd-dal cymwys:

- ❖ llythyr diweddar oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau eich bod yn derbyn **Ategiad Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth sy'n Seiliedig ar Incwm (IR)** ar hyn o bryd
- ❖ hysbysiad o'ch hawl i **Gredyd Pensiwn M1000**
- ❖ hysbysiad llawn oddi wrth Gyllid y Wlad EM yn cadarnhau eich bod yn derbyn **Credyd Treth Plant a bod gennych incwm blynyddol sydd ddim yn fwy na £16,190 a'ch bod DDIM yn teilyngu Credyd Treth Gwaith**
- ❖ tystiolaeth ddogfennol yn cadarnhau eich bod yn derbyn cymorth o dan **Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999**

## Datganiad:

Cytunaf y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperais i brosesu fy nghais am brydau ysgol am ddim ac y byddwch yn cysylltu ag asiantaethau eraill (Canolfan Byd Gwaith, Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid y Wlad) yn unol â'r gyfraith i wirio fy nheilyngdod cychwynnol a chyfredol.

Deallaf y caiff canlyniadau unrhyw wiriad o gymhwyster i brydau ysgol am ddim eu defnyddio i asesu fy nheilyngdod i dderbyn grant gwisg ysgol ar gyfer disgybl Blwyddyn 7.

Datganaf fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn osodiad cywir o'm hamgylchiadau a byddaf yn hysbysu'r Awdurdod **yn ddi-oed** o unrhyw newidiadau i fy amgylchiadau. Deallaf fod hawl gan Adran Addysg Ceredigion i gymryd camau addas os darganfyddir fy mod wedi camarwain yr Awdurdod ynglŷn â fy incwm neu fod fy sefyllfa wedi newid fel nad wyf bellach yn teilyngu Prydau Ysgol am Ddim.

**Llofnod yr Ymgeisydd:** \_\_\_\_\_ **Dyddiad:** \_\_\_\_\_

Os byddai'n well gennych dderbyn eich llythyr cadarnhad ac unrhyw ohebiaeth ynglŷn â Phrydau Ysgol am Ddim drwy e-bost, nodwch eich cyfeiriad e-bost isod:

**Cyfeiriad E-bost:** \_\_\_\_\_

Dylid anfon y ffurflen gais hon, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol, at:

**Yr Uned Ddata  
Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol  
Canolfan Rheidol,  
Rhoddfa Padarn,  
Llanbadarn Fawr,  
ABERYSTWYTH  
Ceredigion, SY23 3UE**

Dychwelir eich holl dystiolaeth ddogfennol atoch yn syth.